❖ Carol Nadolig

Tôn: 'Hereford'

Mae'r clychau'n canu eto'n glir
Ar adeg y Nadolig;
Fe anwyd inni Geidwad pur,
Yr Iesu bendigedig.
Anfeidrol Dduwdod yn y cnawd,
Cyflawnder y cyfamod,
Ac yntau yn ei breseb tlawd
A'r wyryf yn ei warchod.

Angylion ganodd neges ddrud
Yn dyner ar yr awel;
Bugeiliaid aethant at y crud
I blygu yno'n dawel.
Rhyfeddol oedd y nefol wyrth,
Digymar oedd eu syndod
I weld yr Oen a aeth yn fud
I'r lladdfa dros ein pechod.

Yng ngolau'r seren gyda'r hwyr
Daeth doethion â'u hanrhegion
I foli'r baban tlws a ŵyr
Yn llwyr ein holl anghenion.
Doethineb Duw mewn rhychwant bach,
Difesur yn ei fawredd,
A thros ei gawell cysgod croes
O'r dechrau fu yn gorwedd.

Nid bellach ar ei wely gwair
Ond ar ei gadarn orsedd
Y gwelir dwyfol Faban Mair,
Yn haeddu pob anrhydedd.
Mae'r clychau'n canu eto'n glir
Ar adeg y Nadolig;
Gogoniant, clod a moliant gwir
I'r Iesu bendigedig.

Pat Turner

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com